

Gwlân to Oo

Adroddiad am y prosiect cychwynnol i greu cysylltiadau economaidd buddiol rhwng diwydiant gwlân Cymru a diwydiant gwlân Shetland



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Cefndir

Ymchwiliwyd i'r adroddiad hwn ac fe'i cyflwynir gan Emily Victoria McLeod O'Reilly, yn dilyn trafodaethau gyda thîm LEADER ynghylch cymorth paratoadol posibl ar gyfer datblygu prosiect cydweithredu. Roedd y costau yn cynnwys teithio o Gymru i Shetland, llety yn Aberdeen a Shetland, llogi car, bwyd, a deunyddiau ymchwil ar ynys. Diben hyn oedd cynnal ymchwiliad cychwynnol i gyswllt cydweithredol rhwng cymunedau gwledig Shetland a Chymru, gyda phwyslais ar gynhyrchu gwlan ac economïau sy'n gysylltiedig â hyn.

Cynigiwyd y prosiect gan Cynnal y Cardi, gan bod ei ddull gweithredu yn cynrychioli elfennau craidd cynllun LEADER. Mae gan y ddwy ardal gynlluniau LEADER a arweinir gan ardaloedd Grŵp Gweithredu Lleol. Roedd y prosiect arfaethedig yn cefnogi egwyddor LEADER, sef cydweithio o'r gwaelod i fyny o unigolion annibynnol a sefydliadau a chynhyrchwyr ar raddfa fach; y potensial i arloesi gyda digwyddiadau a chyfleusterau arfaethedig yn y dyfodol, yn ogystal â rhwydweithio a chydweithio.



Cefndir:

Gwyntyllwyd y syniad cychwynnol yn y grŵp gwau lleol yn Llanbedr Pont Steffan, y mae Emily yn aelod ohono. Maent wedi bod yn trafod y syniad o gyfnewid sgiliau rhwng y selogion gwlan a thecstilau yma yng Nghymru a'r rhai yn Ynysoedd Shetland ers sawl blynedd. Pa gysylltiadau buddiol a chyfleoedd dysgu ar y cyd y byddai modd eu creu?

Dywedodd tiwtor yn y coleg (Coleg Celf Caerfyrddin) bod cyfleoedd gwirfoddoli ar gael ar Ynys Yell yn y stiwdio wehyddu yn ystod wythnosau olaf mis Mehefin 2017. Ystyriwyd y byddai hwn yn gyfle i ddatblygu gwybodaeth Emily am stiwdio sy'n gweithio.

Un o'r materion a'r cwestiynau mwyaf yw: "Ble mae'r gwlan Cymreig?"

Mae nifer o bobl yn cynhyrchu symiau bach o edafedd o fridiau penodol ac yn fwy diweddar, ar raddfa ychydig yn fwy gyda menter gwlan Cambria. Un o'r tueddiadau mwyaf cyffrous dros y blynyddoedd diwethaf fu'r cam o ddychwelyd i wlan a'r gwerth go iawn ymhlith crefftwyr llaw o chwilio am edafedd wedi'i gynhyrchu o wlan bridiau penodol. Fodd bynnag, rydym wedi darganfod sawl problem a amlygwyd, sy'n atal pobl, boed y rhain yn felinau neu'n unigolion, rhag buddsoddi mewn gwlan Cymreig go iawn yn unig.

- ***Mae pobl yn tybio bod y gost yn rhy uchel.***

Er enghraifft: cyfwelwyd cyd-fyfyriwr o Ysgol Gelf Caerfyrddin gan S4C yn ddiweddar (teledu Cymraeg mewn partneriaeth â BBC Cymru) ynghylch y dillad y mae hi'n eu cynhyrchu. Roedd hon yn fenter hynod o gyffrous a oedd yn cynnwys sawl busnes ac unigolyn yn ardal Llanbedr Pont Steffan, fodd bynnag, yn y cyfweiliad, awgrymwyd y byddai hi'n rhy ddrud gwehyddu eu dillad gan ddefnyddio Gwlan Mynyddoedd Cambria (gwlan sy'n tarddu o'r ardal leol). Credaf bod hyn yn dangos datgysylltiad rhwng y cyflenwr a'r crefftwr, a ddylai fod yn berthynas fuddiol mewn gwirionedd.

- ***Dirywiad y diwydiant melinau lleol yng Nghymru.***

Gallai diflaniad y melinau lleol yng Nghymru dros y can mlynedd diwethaf gynnig tystiolaeth bellach o'r awgrym hwn o'r datgysylltiad rhwng crefftwyr a chyflenwyr. Mae llyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar, *Melinau Gwlan*, yn cofnodi nifer fach y melinau sy'n gweithio sydd ar ôl yng Nghymru, ond caiff pob un ei thrin fel achos unigol yn hytrach na rhwydwaith diwydiant. Ni yw'r ail ardal fwyaf yn y DU sy'n cynhyrchu gwlan, ond mae'r diwydiant defaid yn canolbwyntio ar gig oen Cymreig yn hytrach na'r tecstilau y dylem gael ein gwerthfawrogi amdanynt hefyd.

Wrth gwrs, ceir rhestr hirach o fanteision eraill sy'n dod o adfywio'r diwydiant melinau lleol ac ailgysylltu tarddiad gwlan lleol, gan gynnwys;

- *Cadw crefftwyr a masnachwyr yn yr ardaloedd y maent yn eu caru, gyda'r anifeiliaid a'r cynhyrchion y maent yn eu caru.*
- *Cynhyrchu cynnyrch sy'n llawer mwy ecogyfeillgar.*
- *Cynnig cyflogaeth a sgiliau ar gyfer ardaloedd y maent yn aml yn rhai difreintiedig iawn.*

Pam Shetland?

Mae gwlan Shetland yn adnabyddus ar hyd a lled y byd, o ran ei ansawdd a'i ddiwydiant. Bydd pobl yn teithio o bob cwr o'r byd i ymweld â'u melinau, eu gweithdai a'u hynsoedd prydferth. Mae'r rhain oll yn bethau yr ydym yn eu rhannu yng Nghymru, ond er hyn, mae'n ymddangos bod diffyg cysylltiadau sy'n debyg i wreiddgyffion bach rhwng pob rhan o'u diwydiant; o ffermydd sy'n cyflenwi i felinau lleol, i grefftwyr ac yn y pen draw, i'r farchnad.

Yn ogystal, ceir sawl nodwedd debyg arall rhwng Shetland a chefn gwlad Cymru. Ystyriwch ein heconomiâu gwledig iawn, ein buddsoddiad cyhoeddus (prin efallai) mewn crefftau, gwasanaethau, neu seilwaith. Ein diwylliannau tecstilau hanesyddol a chadarn. Ein

poblogaethau llai o faint, ac wrth gwrs, yr 'ecsodus economaidd' lle y gwelir nifer fawr o grefftwyr yn gadael yr ardaloedd prydferth hyn er mwyn symud i ardaloedd mwy metropolitan aidd lle y mae'n haws sicrhau cyflogaeth efallai.

Cwestiwn rhethregol, felly – sut y mae hi'n fwy ymarferol ac yn fwy ariannol hyfyw i gynhyrchwr tecstilau brynu conau o wllân Shetland yn hytrach na gwllân gan gynhyrchwr ychydig filltiroedd i ffwrdd?

Rydym yn grediniol y byddai rhannu sgiliau a fyddai o fudd i'r ddwy ochr a chyfleoedd eraill rhwng Cymru ac Ynysoedd allanol yr Alban yn rhoi hwb i werth economaidd y ddau diwydiant gwllân. Byddai modd sefydlu rhwydwaith a werthfawrogir ac aildanio diwydiannau a sgiliau traddodiadol.

Sut fyddai modd gwneud hyn?

Ar y dechrau, y cam cyntaf fyddai cynnal ymweliad paratoadol â Shetland i gyd-fynd ag ymweliad profiad gwaith Emily O'Reilly, a fyddai'n cynnwys ymweld â diwydiannau ac unigolion perthnasol er mwyn casglu gwybodaeth am ddiddordeb posibl mewn ymweliad gyfnewid. Byddai hyn yn canolbwyntio ar bob cam o'r broses gynhyrchu, o ffermwyr i gynhyrchwyr tecstilau a grwpiau tebyg i'n grŵp gwau ni. Byddai hyn hefyd yn cynnwys creu cysylltiadau rhwng trefnwyr Wythnos Gwllân Shetland a'n grwpiau Wonder Wool Wales ni er mwyn hwyluso digwyddiad ar y cyd yn y ddwy wyl.

Yn y pen draw, gallai'r grŵp sy'n ffurfio yma yng Nghymru ar hyn o bryd, a'r grŵp tebyg yn Shetland, drefnu ymweliadau cyfnewid ac anerchiadau/arddangosiadau. Mae dod â phobl i'r ardaloedd y gallent gael budd gan hyn yn llawer mwy effeithiol ac mae'n ychwanegu'r gwerth dynol na fyddai ffyrdd eraill yn gallu ei wneud efallai.

Mae gan hwn y potensial i ddatblygu i fod yn rhwydwaith tecstilau ar draws y DU gyfan o gynhyrchwyr lleol, melinau bychain a chrefftwyr, gan gynnwys grwpiau yn Lloegr ac Iwerddon, a byddai hyn yn ychwanegu gwerth economaidd ac ar ffurf gwybodaeth i'n diwydiannau cyfunol.

Partneriaid lleol posibl a nodwyd:

- Grŵp gwau Llanbedr Pont Steffan – mae gan holl aelodau'r grŵp sgiliau unigol ym maes tecstilau ac maent yn dymuno cynorthwyo gyda gweinyddiaeth a threfniadaeth broffesiynol y grŵp arfaethedig. Mae gan rai aelodau dyddynnod ac maent yn ymwneud â'r gymuned amaethyddol lleol, felly byddent yn cael budd gan y prosiect ac yn cyfrannu iddo.
- Prosiect Gwllân Mynyddoedd Cambria – byddai'n cynnig dirnadaeth o'r broses o weithredu cynnyrch gwllân sybiau penodol ar raddfa fach. Yn ogystal, maent yn dangos pwysigrwydd cynnyrch gwllân sy'n tarddu o Gymru a'r dymuniad ymhlith defnyddwyr amdano.

- Coleg Celf Caerfyrddin – y potensial i gynnig ymweliadau cyfnewid sgiliau rhwng Coleg Shetland a cholegau yng Nghymru.

Nod gwaith cymorth paratoadol yw cyflawni'r canlynol, a bydd y canlyniadau a ddymunir yn cynnwys:

- Creu **rhwydwaith** cadarn rhwng ardal Shetland a Cheredigion er mwyn dysgu o'u profiadau nhw o ddatblygu diwydiant tecstilau sy'n adnabyddus ar draws y byd mewn lleoliad daearyddol gwasgareddig. Ystyried y defnydd a wneir o gadwyni cyflenwi cysylltiedig (cynhyrchwyr/gwerthwyr/crefftwyr/cyhoedd), prosesu ar ynys, a digwyddiadau twristiaeth/tecstilau sy'n dod ynghyd i gryfhau hyfywedd economaidd diwydiant tecstilau Shetland.
- Cyfle i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth newydd er mwyn ehangu safbwyntiau lleol gyda'r canlynol:
 - Clwstwr presennol h.y. y grŵp gwau.
 - Ysgol Gelf Caerfyrddin.
 - Grwpiau/unigolion eraill yng Ngheredigion sydd â diddordeb.
 - Meithrin cysylltiadau gyda phrosiect Gwlân Mynyddoedd Cambria, a gefnogir trwy Fenter Mynyddoedd Cambria (CMI).
- Rhwydweithio a rhannu profiadau mewn perthynas â rhedeg dau ddigwyddiad/dwy wyl – Wythnos Gwlân Shetland a Wonder Wool Wales.
- Gall gweithgarwch cydweithredu fel hyn gynnig cyfleoedd i ddatblygu arloesedd ar draws ffiniau trwy ddysgu gan ardaloedd tebyg o ran yr economi, poblogaeth wledig a diwylliannau cadarn yn y maes hwn.
- Creu grŵp newydd yng Ngheredigion sy'n hwyluso ymweliadau cyfnewid, rhannu sgiliau a chysylltiadau rhwydwaith pellach ar draws y DU.
- Paratoi adroddiad am ganlyniadau'r ymweliad.
- Y nod ar gyfer y tymor hir fyddai cryfhau'r cysylltiadau, gydag ymweliadau pellach yn y dyfodol a rhannu gwybodaeth yn barhaus.
- Ar lefel bersonol, dysgu sgiliau ymarferol megis rheoli gweithdy proffesiynol a gwehyddu AVL, y mae modd eu trosglwyddo i eraill.

Manylion yr ymweliad

Dewiswyd y llwybr penodol hwn fel ffordd o bwysleisio'r pellter a deithir h.y. y pellter y bydd cynhyrchion yn teithio a rheidrwydd cynhyrchu ac adnoddau lleol, ond hefyd, er mwyn defnyddio'r amser teithio ychwanegol fel cyfle i rwydweithio ymhellach a chyflwyno syniad y prosiect i gyd deithwyr. Mae gofyn treulio dau ddiwrnod yn teithio dros fôr a thir o Gymru i Shetland, ac mae hyn yn caniatáu i'r prosiect gyrraedd cynulleidfa bersonol llawer ehangach.

Ar Shetland ei hun, pennwyd y llwybr gan gynhyrchwyr gwlan adnabyddus penodol, artistiaid tecstilau, cyrchfannau i dwristiaid a chyfle profiad gwaith ar Yell.



Ffigwr Pellter i'w deithio mewn trên ac ar long

Rhannwyd yr ymweliad yn dri phrif ran:

- i. Casglu gwybodaeth a chreu cysylltiadau ymhlith cynhyrchwyr gwlan, crefftwyr a sefydliadau addysgu yr ynys.

- ii. Casglu gwybodaeth a chreu cysylltiadau yn safleoedd treftadaeth a thwristiaeth yr ynys sy'n ymwneud â'r diwydiant gwlân.
- iii. Ymweld â stiwdio wehyddu Global Yell a gweithio yno, unwaith eto er mwyn creu cysylltiadau gan ei bod yn ganolfan sefydledig ar gyfer addysg, y diwydiant tecstilau a thwristiaeth – ond hefyd, meithrin sgiliau personol ac ymestyn fy nealltwriaeth o gynhyrchu brethyn ar raddfa fach. (Er nad oeddwn yno am gyfnod digon hir i ymgymryd ag achrediad neu brosiect ar raddfa lawr, fe'm gwahoddwyd i ddychwelyd am gyfnod hwy fel rhan o raglen interniaeth).

Lerwick

Yn ymwneud â chynhyrchu gwlân		
er mwyn creu eitemau traul		
Man yr ymwelwyd ag ef	Gwefan	Crynodeb
Jamieson and Smith	http://www.shetlandwoolbrokers.co.uk	Cynhyrchwr gwlân sy'n adnabyddus ar draws y byd, ac sy'n gyfrifol am y cnufau gan dros 700 o grofftydd ar Shetland. Yn ogystal, mae'n cynhyrchu eitemau o'i wllân megis siwmperi, eitemau les ac ategolion, yn ogystal â gweithio gyda chwmnïau eraill megis Vi Spring er mwyn datblygu amrediad ei gynnyrch.
Ninian	http://www.ninianshetland.co.uk/index.php	Siop fwtîc fach yn Lerwick sy'n cynnig rhoddion ac eitemau lleol, ond sydd hefyd yn cynnwys gweithdy gwau Joanna Hunter Knitwear. Mae'n cynhyrchu mwyafrif ei dillad yma, ond mae'n gweithio gyda'r brifysgol leol hefyd er mwyn cynhyrchu ei dillad rhac medrydd mwy cain. Mae'n gwerthu ar hyd a lled y byd.
Jamieson's of Shetland (siop ffatri)	http://www.jamiesonsofshetland.co.uk	Y brif siop yn Lerwick sy'n gwerthu'r cynnyrch gwlân a nifer fawr o ddillad wedi'u gwau ar beiriant.

Yn ymwneud â thwristiaeth a threftadaeth gwlan		
Man yr ymwelwyd ag ef	Gwefan	Crynodeb
Amgueddfa Tecstilau Shetland	http://www.shetlandtextilemuseum.com	Wedi'i lleoli mewn Bød o'r Unfed Ganrif ar Bymtheg a adnewyddwyd, mae hon yn arddangosfa fach o rai o'r meysydd mwyaf nodedig yn hanes tecstilau Shetland.
Amgueddfa ac Archif Shetland	https://www.shetlandmuseumandarchives.org.uk	Mae hon yn llawer mwy nag Amgueddfa Tecstilau Shetland, ac mae'n cynnwys hanes ehangach am dreftadaeth Shetland, fodd bynnag, mae'n cynnwys amrediad sylweddol o arddangosiadau tecstilau ac mae'n amlwg yn rhan o hanes yr ynys a werthfawrogir.
Gwybodaeth i Dwristiaid Lerwick	https://www.visitscotland.com/info/services/lerwick-icentre-p333461	Safle gwybodaeth i dwristiaid sy'n cynnwys tecstilau ac ychydig wybodaeth am ei threftadaeth mewn perthynas â gwlan.



Ffigur 2 Stiwdio wehyddu Global Yell, Yell

Yell

<u>Yn ymwneud â chynhyrchu gwlân a chynhyrchu eitemau traul</u>		
Man yr ymwelwyd ag ef	Gwefan	Crynodeb
Global Yell	http://www.globalyell.org	Cartref canolfan addysg, archif tecstilau a stiwdio cynhyrchu tecstilau.

Sandness

<u>Yn ymwneud â chynhyrchu gwlân a chynhyrchu eitemau traul</u>		
Man yr ymwelwyd ag ef	Gwefan	Crynodeb
Jamieson's of Shetland (ffatri a safle cynhyrchu, yn ogystal â siop a chanolfan wybodaeth)	http://www.jamiesonsofshetland.co.uk	Prif safle cynhyrchu sy'n cynnwys y diwydiant prosesu gwlân a pheiriannau gwau. Mae'n cynnwys siop fawr a chanolfan ymwelwyr hefyd.

Hoswick


<u>Yn ymwneud â chynhyrchu gwlân a chynhyrchu eitemau traul</u>		
Man yr ymwelwyd ag ef	Gwefan	Crynodeb
Niela Nell	http://www.nielanell.com	Siop fwtîc fach sy'n cynnwys dehongliad unigryw Niela Nell o ddyluniadau wedi'u hysbrydoli gan Shetland.
Laurence Odie Knitwear	http://www.hie.co.uk/about-hie/projects/archive/laurence-odie-knitwear-ltd.html	Siop nwyddau gwlân Shetland draddodiadol iawn.



Ffigur 3 Stiwdio Niela Nell, Hoswick

<u>Yn ymwneud â thwristiaeth a threftadaeth gwlan</u>		
Man yr ymwelwyd ag ef	Gwefan	Crynodeb
Canolfan Ymwelwyr Hoswick	http://www.shetlandheritageassociation.com/members/south-mainland/hoswick-visitor-centre	Arddangosfa treftadaeth leol gan gynnwys peiriannau gwehyddu ac enghreifftiau o eitemau a gynhrychir yn lleol.

Sumburgh

<u>Yn ymwneud â thwristiaeth a threftadaeth gwlan</u>		
Man yr ymwelwyd ag ef	Gwefan	Crynodeb
Goleudy Sumburgh Head	https://www.sumburghhead.com 	Canolfan ymwelwyr a thaith o gwmpas goleudy – un o leoliadau'r gweithdai yn ystod Wythnos Wlân Shetland.
	<i>Pwffin gerllaw Goleudy Sumburgh Head</i>	

<u>Cysylltiadau a wnaethpwyd ond nas ymwelwyd â nhw</u>		
Cysylltiad	Gwefan	Crynodeb
Ella Gordon	https://ellagordon.wordpress.com	Llefarydd ar gyfer Wythnos Gwlan Shetland 2016. Dylunydd tecstilau sy'n gweithio i Jamieson and Smith.
Hazel Tindall	http://www.hazeltindall.com	Dylunydd a gwëydd adnabyddus.
Prifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd	https://www.uhi.ac.uk/en/	Cyswllt hyfryd a fu o gymorth mawr, yn anffodus roedd fy ymweliad yn digwydd ar yr un pryd â'r sioe dylunwyr newydd yn Llundain, felly dim ond cyswllt dros e-bost yr wyf wedi'i gael gyda nhw.
Urdd Nyddwyr, Gwehyddion a Lliwyddion Shetland	http://www.shetlandheritageassociation.com/members/shetland-wide/guild-of-spinners-weavers-and-dyers	Rhan o'r rhwydwaith ar draws y DU.

Dewiswyd pob lle yr ymwelwyd â nhw neu y cysylltwyd â nhw cyn ymweld, trwy archwilio'r lenyddiaeth helaeth sydd ar gael ar ynys, neu thrwy argymhellion a wnaethpwyd gan leoedd yr ymwelwyd â nhw. Roedd hyn yn amlygu dau ffactor arwyddocaol:

1. Mae amrediad sylweddol o lenyddiaeth ar gael am y mannau mwyaf pellennig y gellir ymweld â nhw – roedd rhai o'r stiwdios a'r gweithdai yng nghartrefi pobl, ond roeddent yr un mor wasanaethgar â rhai o'r lleoliadau mwy ac roeddent yn awyddus i drafod y diwydiant cyfan. Defnyddiwyd llyfrynnau llwybrau crefft, mapiau Ynys sy'n rhestru safleoedd cynhyrchu gwlan ac arwyddion ffyrdd helaeth ar draws yr ardal yr ymwelwyd â hi.
2. Roedd y cysylltiad rhwng pob busnes yn amlwg. Wrth ymweld ag un lle, byddwn wastad yn cael fy nghynghori i ymweld â nifer o rai eraill. Nid yw hyn yn rhywbeth yr wyf wedi ei weld yn digwydd cymaint yng Nghymru. Roedd un o'r enghreifftiau mwyaf trawiadol o hyn wedi digwydd wrth ymweld â Jamieson's and Smith. Maen nhw yn gyfrifol am ddelio â chnufau dros 700 o grofftydd, sy'n cyfateb â dros 80% o wlan yr ynysoedd. Maent yn didoli ac yn graddio ar yr ynys, yna caiff ei gludo ar long i Swydd Efrog, lle y caiff ei nyddu a'i liwio. Roeddent wedi sylwi y bu gostyngiad ym mhreis y 4ydd o blith y 4 prif radd yn ddiweddar (yr un mwyaf garw ac sydd fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio mewn carpedi ac ati). Roeddent yn cychwyn ar brosiectau newydd er mwyn codi ei werth, er mwyn i'r ffermwyr gael gwell pris. Er bod hyn yn gwneud synnwyr economaidd amlwg i Jamieson's, mae hefyd yn mynegi'r cysylltiad ar bob lefel o fewn eu diwydiant a'r dymuniad i weld gwlan Shetland yn llwyddo.

Mae'n bwysig nodi ei bod yn amlwg bod nifer o'r busnesau wedi amrywio eu hallbwn, naill ai yn ôl eu hamrediad a thrwy gydweithio gyda busnesau ac unigolion eraill, er enghraifft trwy gynnwys stiwdios a siopau rhoddion, neu ymgysylltu â gweithdai, gweithgarwch rhwydweithio a hysbysebu ar y cyd.

Gellir gweld enghreifftiau o hyn yn:



Stiwdio wau a siop rhoddion Ninian's

SHETLAND SUPERB

PARTNERS THE WOOL SOVEREIGN DIVAN



Jamieson and Smith yn ehangu er mwyn defnyddio eu gwlan mewn matresi gyda Vi Spring a hefyd, adfer dulliau traddodiadol o gynhyrchu siwmperi iau trwy wau cyrff siwmperi ar beiriant, yna cael casgliad o unigolion i wau iau Fair Isle â llaw. Mae'r dull cynhyrchu hwn yn adfer gwerth i arferion traddodiadol ac yn cynnig mwy o gwmpas i bobl gael eu cyflogi i wneud hyn. Ymhellach, mae'n ychwanegu gwerth yn economaidd ac mewn ffordd gynhennid fel cynnyrch etifeddol.



Syniadau i'w datblygu

- Ein “gŵyl Gwlân Shetland” ein hun a fydd yn gweithio wrth ymyl Wythnos Gwlân Shetland er mwyn amlygu Shetland a Chymru, hyrwyddo rhaglenni cyfenwid a threftadaeth mewn oes fodern.

Un o'r prif ddigwyddiadau ym mlwyddyn crefftwyr a chynhyrchwyr gwlan Shetland yw Wythnos Gwlân Shetland. Er bod hon yn debyg i'n digwyddiad ni, Wonder Wool Wales, mae'n ymestyn ac yn datblygu hyn er mwyn cynnwys digwyddiadau a lleoliadau ym mwyafriaf yr ynysoedd sy'n creu Shetland.

Soniodd warden yng ngoleudy Sumburgh Head am ei harwyddocâd, gan ei bod yn ymestyn eu tymor twristiaeth gymaint â mis ychwanegol, oherwydd y'i cynhelir ym mis Medi. Mae hyn yn amlygu lleoliadau na fyddent yn gysylltiedig â gŵyl wlan fel arfer, yn cael budd ganddi. Caiff y digwyddiad ei hyrwyddo trwy gydol y flwyddyn trwy gyfrwng digwyddiadau rhwydwaith cymdeithasol, ei hyrwyddo yn ystod gwyliau eraill a dolenni i wefannau lluosog sy'n cynnig

hyrwyddo cyfleusterau a chynnyrch Shetland. Yn ogystal, ceir gweithgarwch hyrwyddo ar y fferi sy'n croesi i Shetland ac yn ystod yr ŵyl, cynhelir gweithdai ar y fferi hyd yn oed. Cynhyrchir llyfryn sy'n amlygu'r teithiau a'r gweithdai sydd ar gael trwy gydol yr ŵyl, ond mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig ynghylch adwerthwyr a chynhyrchwyr hefyd, y mae modd ymweld â nhw trwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau bod ei heffaith yn para'n hwy fyth.

Y prif wahaniaethau rhwng Wythnos Gwlân Shetland a gwyliau gwlan eraill a gynhelir ar Ynysoedd Prydain yw ei bod yn para wythnos yn y lle cyntaf. Gallai hyn adlewyrchu'r anhawster wrth gyrraedd Shetland, sy'n golygu bod gofyn ymestyn y ffurf 2 ddiwrnod traddodiadol, ond trwy wneud hynny, mae'n ymestyn yr hyn y mae modd ei gynnwys yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n cynnwys digwyddiadau a gweithdai mewn safleoedd lluosog o diddordeb, gan arwain ar nifer o leoliadau yn cael budd, yn hytrach nag un yn unig. Mae hyn yn treiddio i fusnesau llogi ceir, bwyta, gwestai ac economïau lleol eraill yn cael budd hefyd.

Mae ffurf yr ŵyl yn canolbwyntio ar addysg; darparu gweithdai a addysgir gan esbonwyr adnabyddus mewn meysydd amrywiol a chan gynnig rhywbeth ar gyfer amrediad o lefelau sgiliau a gallu. Mae hyn yn llawer mwy na gwerthu eitemau parod yn unig, mae'n annog cyfnewid a rhannu sgiliau traddodiadol hefyd.

1. Mae'r gweithgor yn bwriadu trefnu digwyddiad tebyg yma yng Nghymru i gyd-fynd ag Wythnos Gwlân Shetland, gan fanteisio ar y tymor twristiaeth estynedig a gaiff ei greu gan ddigwyddiad a gynhelir yn hwyrach yn ystod y flwyddyn.
2. Cynnwys teithiau tywys a threfnedig o gwmpas mannau o ddiddordeb mewn perthynas â gwlan Cymreig – creu gwerth economaidd ychwanegol i ragor o leoliadau ar draws Cymru.
3. Canolbwyntio ar y gweithdy a'r ffurf dysgu – gwahodd siaradwyr ac athrawon o Shetland ac yn yr un modd, annog arbenigwyr o Gymru i deithio i Shetland i addysgu.

- **Ail-ddynodi'r hyn a olygir pan fyddwn yn cyfeirio at Wlân Cymreig.**

Un o'r prif gwestiynau a ofynnwyd ar ddechrau'r prosiect hwn oedd o ble mae'r gwlan yn dod a ddefnyddir er mwyn creu'r hyn a gaiff ei frandio fel gwlan Shetland, a sut y caiff ei gynhyrchu mewn ffordd mor effeithiol yn Shetland o'i gymharu â'n diwydiant gwlan ni yma yng Nghymru, sy'n gwanhau?

Un o'r ffeithiau annisgwyl a ddaeth i'r amlwg wrth siarad â'r melinau gwlan yn Shetland yw nad yw cyfran fawr o'r hyn a gynhyrchir fel gwlan Shetland yn dod o frîd defaid Shetland traddodiadol mewn gwirionedd. Wrth i mi deithio o gwmpas Shetland, deuthum ar draws sawl crofft anghysbell a oedd yn cynnwys yr hyn a oedd yn ymddangos i fod y brîd defaid traddodiadol, ond roedd y mwyafrif yn cadw croesiadau a bridiau Croesryw y byddai modd eu gweld ar unrhyw fferm yn y DU. Efallai na ddylai'r ffaith hon beri syndod, oherwydd ar dirlun mor arw â'r arfordir, dylai'r gost a'r hyn sydd ar gael gyd-fynd â'r hyn a gaiff ei ffermio, ac er mwyn cael ei ystyried yn wlan Shetland, yr unig beth a ddisgwylir yw y dylai'r defaid ddod o Shetland.

Er bod brîd Shetland wedi bod yn ffafriol yn hinsawdd mwy garw Shetland, gallai'r ffaith y caiff ei ystyried yn frîd prin ei wneud yn fwy afresymol o ran y gost a'r hygyrchedd, gan olygu bod croesfridiau yn fwy deniadol. Yn ogystal, mae'r gwlan a gynhyrchir gan frîd Shetland yn arw i ryw raddau, fel y disgwyl o ystyried ei amgylchedd a'r ffaith ei fod wedi esblygu trwy addasu i'w amgylchedd, felly byddai amrywio'r hyn a gaiff ei gynnwys dan faner gwlan Shetland helpu i wella ei ansawdd cyffredinol. Mae Jamieson of Shetland yn un o blith dau gynhyrchwr sy'n prosesu ac yn cynhyrchu eu hedafedd eu hunain yn llwyr ar ynys. Wrth drafod â'u perchennog, daeth i'r amlwg eu bod wedi ceisio cynnwys gwlan oen yn eu hallbwn, fodd bynnag, ni all eu peiriannau ddelio ag edefyn ffibr llawer byrrach. Mae maint a chwmpas eu busnes yn golygu hefyd na allant ddelio â chyfansymiau mor fawr ag y gall y cwmnïau hynny sy'n anfon eu gwaith cynhyrchu nhw i'r tir mawr ddelio â nhw. Fodd bynnag, trwy gadw eu proses gynhyrchu ar ynysoedd Shetland, maent yn darparu gwaith ychwanegol i bobl Shetland ac maent yn lleihau eu costau gan nad oes yn rhaid iddynt ychwanegu gwaith cludo helaeth ar y lefel gynhyrchu honno. Mae'r swm hwn a arbedir yn arwain at gostau cynhyrchu is eitemau wedi'u cynhyrchu ar gyfer y defnyddiwr.

1. Mae ailddiffinio'r hyn a olygir gan wlan Cymreig yn allweddol er mwyn symud ymlaen yma ar gyfer ein heconomi ni. Chwalu'r myth bod Gwlan Cymreig yn wlan garw sy'n cosi, yn unol â stereoteip bridiau Mynydd Cymru. Arweiniodd gwaith ymchwil pellach yn amgueddfa Wlan Cymru at y ffaith eu bod wedi penderfynu nyddu gwlan yn deillio o wlan merino amhenodol yn eu peiriannau diwydiannol a adnewyddwyd. Unwaith eto, roedd hyn wedi'i seilio ar y myth bod gwlan Cymreig o ansawdd gwael a bod yr edefyn yn rhy fyr i'w nyddu ar beiriannau diwydiannol traddodiadol. Credaf bod brand gwlan Mynyddoedd Cambria wedi dechrau chwalu'r syniad hwn mewn ffordd ddigonol trwy greu blend o fridiau Prydeinig traddodiadol a dyfir yng Nghymru.

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y bu gan y nyddwyr sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnyrch Gwlan Mynyddoedd Cambria amheuan ynghylch ei addasrwydd er mwyn ei brosesu yn eu peiriannau. Fodd bynnag, gan bod y grŵp sy'n ymwneud â chynhyrchu'r gwlan hwn yn mynnu cnu o'r ansawdd uchaf o fewn y tarddiad cywir ar y lefel raddio, roeddent yn gallu darparu eitem mwy na digonol i'w nyddu ar gyfer y nyddwyr. Y canlyniad yw gwlan gloyw o'i gymharu â bridiau eraill y gwelir galw mawr amdanynt megis Merino a Wyneb Glas Caerlŷr. Mae ganddo ddefnydd lluosog ar draws amrywiaeth o sectorau gan gynnwys cynhyrchion ar gyfer babanod, lle y mae'r gofynion a nodir yn uchel wrth reswm. Mae hyn yn dangos dull gweithredu ar y cyd ar draws amrywiaeth o lefelau o fewn y broses gynhyrchu a ffermio er mwyn creu cynnyrch o ansawdd uchel y dylid ei ddefnyddio mewn ffordd gynhenid er mwyn gwella gwerth economaidd y diwydiant gwlan Cymreig.

2. Trwy dderbyn a dosbarthu tarddiad Cymreig fel rhywbeth sy'n ddigon da i gael ei frandio fel gwlan Cymreig, yn debyg i'r broses yn Shetland, byddai hyn yn ychwanegu gwerth economaidd a mwy o amrywiaeth ac ansawdd i'r diwydiant gwlan yng Nghymru.

3. Mae mwy o addysg ynghylch amrywiaeth bridiau Cymreig traddodiadol penodol yn bwysig hefyd, a bydd yn helpu i amlygu gwerth economaidd a threftadaeth y diwydiant gwlan yng Nghymru.
- **Gwobrwo cynhyrchwyr Cymreig trwy ddarparu dosbarthiad megis brand tair dafad Jamieson and Smith.**



The "Three Sheep Logo"- defining Real Shetland Wool.

The 3-Sheep logo is a registered Trademark associated with our products. We use it to protect the Real Shetland wool brand, and assure customers of the authenticity and origin of our wool.

You can see this symbol on all of our yarns and also on a range of products produced by other licensed companies who use Real Shetland wool that has been grown in the Shetland Islands, sourced from over 700 of our local crofters and farmers. With our long history of specialisation in Shetland wool our customers can be sure that it is graded and sorted to the very highest standards. Furthermore, you can also be certain that your wool benefits crofters and farmers in Shetland, and supports both sheep numbers and rural communities that depend on the crofting industry.

Mae'r uchod yn ddelwedd a gymrwyd o ddeunydd hyrwyddo Jamieson and Smith ac mae modd ei weld ar eu holl gynhyrchion. Er nad yw'n gyffredinol i Shetland, gan nad oes safon dynodedig fel cronnell 'Harris Tweed' yn bodoli, mae'n sôn am angen a chydnabyddiaeth o ran y gwerthoedd ar gyfer cynhyrchion Shetland.

Gallai dosbarthiadau eraill megis 'Marc Gwlân' fod yn rhy ddrud, wrth i'r costau trwyddedu amrywio o £2,800 ac i fyny. Byddai rhywbeth sy'n rhoi brand unigryw i gynhyrchion gwlan Cymreig fel rhywbeth Cymreig yn cynnig budd pwysig i gynhyrchwyr a defnyddwyr.

- **Gweithio gyda ffermwyr er mwyn deall eu cyfyngiadau wrth gynhyrchu gwlan hyfyw gan eu defaid a dealltwriaeth a fyddai'n angenrheidiol er mwyn cynhyrchu gwlan o ansawdd uwch.**

Un o'r prif gyfyngiadau wrth fanteisio ar gynnyrch gwlan Cymreig hyfyw ac o ansawdd yw'r ffaith na fydd efallai yn parhau i fod yn broffidiol i ffermwyr gynhyrchu defaid am eu cnu. Un o'r prif wahaniaethau rhwng crofftwyr Shetland a ffermwyr Cymru yw'r ffaith bod ganddynt ychydig yn fwy o reolaeth dros y man lle y gwerthir eu cnu. Yn y DU, mae gofyn i ni werthu trwy'r Bwrdd Marchnata Gwlân ac eithrio eithriadau penodol megis safon organig a statws bridiau prin. Er bod nifer y busnesau y gall crofftwyr Shetland werthu eu cnu iddynt yn gyfyngedig hefyd, nid oes gofyn iddynt werthu i un cwmni penodol.

Amlygwyd i mi bod gan nifer o'r bobl a oedd yn gweithio yn y cwmnïau sy'n prynu cnu gysylltiadau â chymuned y crofftwyr, naill ai oherwydd eu bod wedi bod yn grofftwyr eu hunain neu trwy berthynas. Yn Jamieson and Smith, dangoswyd i mi sut yr oedd un o'r graddau cnu (gradd 4 – ansawdd mwy garw ac yn debygol o gael ei ddefnyddio er mwyn

cynhyrchu carpedi) wedi cael pris llawer yn is yn ddiweddar. Yn eu tro, roeddent wedi buddsoddi mewn datblygu cynhyrchion newydd er mwyn gwella'r gwerthiannau ar gyfer cnu o'r radd hon, gan wella'r canlyniad i'r crofftwr. Mae hyn yn dangos cysylltiad hanfodol yn ystod pob cam a chyfraniad y Comisiwn Brenhinol o £1,000 y mae angen dirfawr ei weithredu yng Nghymru.

1. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen i ni weithio gyda ffermwyr a chynhyrchwyr gwlan ar raddfa fach a chrefftwyr gwlan er mwyn sicrhau canlyniadau y byddent o fudd i bawb.
 2. Mae gwaith ymchwil pellach a chyfweiliadau yn cael eu cynnal am yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn annog ffermwyr i gynhyrchu cnu o ansawdd uchel.
- **Ystyried ffyrdd o ddwyn pob cam o'r broses o gynhyrchu gwlan yn ôl i Gymru h.y. ffatri brosesu micro ar ffurf melin.**

Er mai dim ond dau gynhyrchwr sy'n cynhyrchu gwlan yn Shetland, roedd eu manteision economaidd a chymdeithasol yn amlwg. Maent yn lleihau'r costau yn ystod y cam cynhyrchu gan bod y costau cludo ac allanoli yn gyfyngedig. Maent yn darparu swyddi ychwanegol ac arbenigedd yn eu hardal leol, ac yn cynnig manteision twristiaeth ychwanegol i'r ardal. Ar hyn o bryd, nid oes fawr iawn o gyfleoedd i wneud hyn yng Nghymru, ac wrth siarad gyda nifer o gynhyrchwyr gwlan lleol, maent yn teimlo mai'r unig ddewisiadau prosesu a nyddu sy'n economaidd hyfyw yw defnyddio cwmnïau y tu allan i Gymru.

Gan weithio gydag aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc a grŵp o fyfyrwyr tecstilau presennol, rydym yn ystyried ffyrdd o ariannu a datblygu melin micro gynaliadwy yng Nghymru. Byddai hon yn cynnig ffrwd cynhyrchu dolen gaeedig ac yn cynnig manteision economaidd i'r diwydiant gwlan yng Nghymru, gan greu swyddi a hyfforddiant arbenigol. Oherwydd y byddai'n felin micro, byddai'n naturiol iddi geisio delio â chyfansymiau llai o gnu, fodd bynnag, gallai hyn annog datblygiad modelau ffermydd bridiau prin a llai, sy'n ychwanegu ymreolaeth a hunan-lywodraethu i'r prisiau cnu ar gyfer y ffermwr (fel y gwelir ym model Shetland).

- **Rhaglen gyfnewid rhwng tecstilau Global Yell ac Ysgol Gelf Caerfyrddin neu unigolion y mae ganddynt ddiddordeb tebyg.**

Un o'r prif gysylltiadau a chynghreiriau a sefydlwyd yn ystod yr ymweliad â Shetland oedd stiwdios Global Yell. Andy Ross yw'r cymeriad dynamig wrth wraidd Global Yell, lle y mae'n cynnig hyfforddiant gwehyddu yn ogystal â threfnu teithiau o gwmpas Shetland a chynhyrchu tecstilau a chyfleoedd ar gyfer dylunwyr newydd. Mae Andy yn awyddus i hwyluso rhaglenni cyfnewid rhwng ei stiwdio ef a rhai yng Nghymru, ac mae wedi bod yn allweddol wrth annog y syniad hwn.

Mae ei stiwdio yn cynnig model gwych o gyfleuster addysgu a safle cynhyrchu annibynnol. Ers ymweld â'i stiwdio lle y dysgais sut i ddefnyddio fframiau gwau AVL a gwehyddu adrannol, rydw i wedi sicrhau'r cyllid i brynu gweithdy lle y gallaf gynnig hyfforddiant tecstilau a chynhyrchu cynhyrchion tecstilau. Byddwn yn gobeithio defnyddio hwn fel un o'r canolfannau er mwyn hwyluso'r rhaglen gyfnewid.

- **Cynhyrchu gwlân Cymreig/Shetland er mwyn amlygu'r cysylltiadau a'r posibiladau.**

Un o'r canlyniadau awgrymedig a amlygwyd gan y gweithgor yma yng Nghymru, yw cynhyrchu gwlân sy'n cyfuno cnu bridiau penodol o Gymru a Shetland. Byddai modd defnyddio hwn fel offeryn er mwyn amlygu cysylltiadau a phwysigrwydd y ddau ddiwydiant gwlân. Byddai hwn yn cynnig canlyniad a fyddai o fudd i'r ddau ddiwydiant.

Crynodeb o'r pwyntiau gweithredu a gyflawnwyd a phwyntiau gweithredu bwriadedig

<p>Cydweithio gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc yng Nghymru i sicrhau dirnadaeth o gyfyngiadau cynhyrchu gwlân a datblygu prosiect Melin Micro.</p>	<p>Rydw i wedi meithrin cysylltiadau gydag aelodau rhwydwaith y Clwb Ffermwyr Ifanc fel ffordd o ehangu nifer yr aelodau yn y gweithgor sydd â diddordeb, darparu cyfyngiadau go iawn a brofir wrth gynhyrchu cnu gwlân Cymreig, ac rydw i'n gweithio i greu melin micro gydag aelodau sydd â diddordeb, y byddent yn cael budd o'i sefydlu. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi trefnu ymweliad â melin micro yng ngogledd Cymru ac rydym wedi bod yn cael trafodaethau gyda chwmni yn America sy'n cynhyrchu offer diwydiannol sy'n bodloni anghenion melinau bach yn benodol. Mae hyn wedi bod yn hynod o werthfawr gan bod fy nghefndir i mewn tecstilau yn unig, felly gellir integreiddio dirnadaeth gan ffermydd a'r problemau y maen nhw yn eu hwynebu, mewn datrysiadau.</p>
<p>Gweithio gyda grŵp amlddisgyblaethol "Haenau yn y Tirlun".</p>	<p>Mae "Haenau yn y Tirlun" yn ganlyniad casgliad o wahanol artistiaid ac academyddion er mwyn amlygu celf a gwybodaeth sy'n seiliedig ar y tir. Mae'n cyflwyno gwaith sy'n dangos goblygiadau a newidiadau i dirlun Cymru trwy gyfrwng canfyddiadau archeolegol, barddoniaeth, perfformiad, crochenwaith a thecstilau.</p>



Ffigwr 4 gwaith sy'n cael ei arddangos yn Haenau yn y Tirlun



Ffigwr 5 gosodiad a gwaith sy'n cael ei arddangos yn Haenau yn y Tirlun

Gofynnwyd i mi gyfrannu gwaith i'r arddangosfa bresennol a thrwy wneud hynny, rydw i wedi sôn am y syniad o ehangu'r gwaith ymchwil a'r astudiaeth er mwyn cynnwys gwaith sy'n canolbwyntio ar Shetland ac ardaloedd eraill ar hyd arfordir Prydain. Roedd fy ngwaith yn cynnwys delweddau o'm hymweliad â Shetland, yn ogystal â gwaith a gynhyrchwyd mewn ymateb iddo. O ganlyniad, roeddwn yn gallu ei ddefnyddio fel platfform er mwyn sôn am brosiect gwlan Shetland/Cymru a chreu rhwydweithiau pellach sydd â diddordeb.

Creu rhaglen gyfnewid rhwng Cymru a Shetland	Mae Andy Ross o Global Yell a minnau wedi bod mewn cysylltiad er mwyn ysgogi'r syniad hwn ac ers dychwelyd, rydw i wedi sicrhau'r cyllid er mwyn sefydlu gweithdy y byddai modd iddo weithio fel un o sawl canolfan ar gyfer y rhaglen gyfnewid. Yn ogystal, rydw i wedi bod yn siarad gyda myfyrwyr a staff yng Ngholeg Sir Gâr er mwyn gweld y diddordeb sydd yn y prosiect hwn.
Datblygu Wythnos Gwlân Cymreig	Mae athrawon a busnesau amrywiol wedi cysylltu â mi er mwyn ysgogi diddordeb a chreu gweithdai posibl er mwyn gallu cynnal Wythnos Gwlân Cymreig. Lluniwyd cynllun gwaith er mwyn ei chynnal eleni ar yr un pryd ag Wythnos Gwlân Shetland, ond oherwydd cyfyngiadau amser, ni fu modd ei chynnal.
Cadarnhau perthnasoedd gyda chysylltiadau a wnaethpwyd yn Shetland	Gwnaethpwyd hyn trwy gyfrwng negeseuon e-bost a blogiau o wefan y grŵp yn bennaf.
Cychwyn cyfarfodydd rheolaidd o blith aelodau'r gweithgor er mwyn datblygu grŵp sefydledig	<i>Yn cael ei ddatblygu</i>
Ystyried hyrwyddo'r gwaith a wneir gan y grŵp yn gyhoeddus	Mae ymchwiliadau a chostau cychwynnol wedi cael eu pennu er mwyn cynhyrchu gwllân Cymreig/Shetland.
Datblygu gwaith brandio sy'n adnabod gwllân Cymreig	<i>Yn cael ei ddatblygu</i>
Gweithdai a chyfleusterau adnoddau mewn traddodiadau tecstilau	<i>Yn cael ei ddatblygu</i>
Hyrwyddo prosiect ar y cyd trwy gyfrwng gwyliau gwllân sy'n bodoli eisoes	<i>Yn cael ei ddatblygu</i>
Creu rhwydwaith o gynhyrchwyr a chrefftwyr gwllân Cymreig	<i>Yn cael ei ddatblygu</i>

Cyfyngiadau ac anawsterau

Hyd yn hyn, y mater mwyaf fu rheoli amser wrth ddelio â rhwystrau annisgwyl. Mae hyn hefyd yn cynnwys hwyluso cwmpas llawn y prosiect fel y mae'n haeddu cael ei gynrychioli, wrth astudio gradd a delio ag ymrwymadau gwaith. Fodd bynnag, wrth i'r prosiect symud yn ei flaen, mae mwy o bobl wedi ymwneud ag ef ac wedi mynegi diddordeb ynddo, sy'n golygu bod modd gwneud mwy ar draws cylch gwaith ehangach o bobl. Mae hyn wedi agor y prosiect i lwybrau newydd ac annisgwyl hefyd, a bydd hyn oll yn cynnig budd i'r canlyniadau cyffredinol.

Casgliad

Bu'r daith ymchwil i Shetland yn fan cychwyn hynod o werthfawr ar gyfer prosiect a fydd yn cynnig budd economaidd go iawn cynyddol i ddiwydiant gwlan Cymru, trwy gyfrwng gwybodaeth, cydweithio a chynhyrchu mwy o wasanaethau. Roedd y cyfle i weld diwydiant gwlan llewyrchus mewn amgylchedd anghysbell a gwasgaredig yn cynnig ystod eang o ddatrysiadau a syniadau er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a welir yma yng Nghymru. Yn ogystal, amlygodd werth creu datrysiadau a chysylltiadau amlddisgyblaethol yn ogystal â'r posibilrwydd o greu cysylltiadau a rhwydweithiau cadarn rhwng Cymru a Shetland. Roedd yn amlwg bod nifer o leoliadau a chyfleusterau wedi cael budd gan y datblygiad a'r cyhoeddusrwydd cynyddol sy'n gysylltiedig â diwydiant gwlan Shetland.

Yr unig ffordd y gellir gwireddu'r prosiect hwn yw trwy gydweithio ar draws amrediad o sectorau a sefydliadau. Fodd bynnag, ar yr adeg hon mae diddordeb a brwdfrydedd sylweddol wedi cael ei sicrhau, ac ar ôl i'r gweithgor ddatblygu i fod yn grŵp sefydledig sy'n cyfarfod yn rheolaidd, dylai ei ganlyniadau fod yn sylweddol.

Y man cychwyn pwysicaf fyddai a) gweithio gyda ffermwyr er mwyn deall eu cyfyngiadau presennol wrth gynhyrchu gwlan o ansawdd uchel, b) gweithio gyda chrefftwyr a chynhyrchwyr tecstilau gyda ffermwyr er mwyn deall eu cyfyngiadau a dechrau cydweithio i feithrin y datrysiadau hyn. Yn ogystal, byddai angen i ni fod yn trefnu digwyddiadau cysylltiadau cyhoeddus er mwyn rhoi gwell cyhoeddusrwydd i'r hyn sydd mor rhagorol am amrywiaeth y bridiau sy'n rhai Cymreig traddodiadol ac yn Gymreig o ran eu tarddiad. Byddai cynhyrchu cynnyrch fel gwlan Shetland/Cymreig o gymorth gwerthfawr i hyn, ond hefyd, mae'n werth ystyried na ddylid cyfyngu ar y syniad hwn i'r ddau gysylltiad hwn. Dylem fod yn amlygu ac yn dathlu cysylltiadau rhwng y diwydiant gwlan ar draws y DU gyfan a'i draddodiadau, ac ymhellach i ffwrdd hefyd yn y dyfodol gobeithio.